TAIR CEINIOG

# PLAID CYMRU GYFAN

## Atebion Saunders Lewis a J. E. Daniel i Mr. Gwilym Davies.

Yn rhifyn Gorffennaf, 1942. "Y Traethodydd," cyhoeddwyd ysgrif gan y Parchedig Gwilym Davies, M.A., ar "Gymru Gyfan a'r Blaid Genedlaethol Gymreig," a argraffwyd hefyd a'i gwerthu fel pamffled. Yn yr ysgrif hon cyhuddwyd y Blaid Genedlaethol Gymreig o geisio sefydlu yng Nghymru wlad "annibynnol, dotalitaraidd, Ffasgaidd a Phabyddol." Ateb i ensyniadau'r erthygl honno yw'r pamffled hwn.

Swyddfa'r Blaid, Caernarfon

# ATEB SAUNDERS LEWIS

Rhaid bod yn glir ar y pwynt hwn: nid ymosodiad ar y Blaid Genedlaethol Gymreig yn bennaf yw ysgrif Mr. Gwilym Davies yn rhifyn Gorffennaf "Y Traethodydd." Dywed ef fod ganddo gasgliad o benderfyniadau swyddogol y Blaid, ond nid oedd ganddo ofod i ddyfynnu ond un: "Galwn ar ein cyd-Gymry oll i ymuno a ni yn y frwydr dros ryddid a heddwch a democratiaeth a llwyddiant i Gymru." Ymosodiad personol arnaf i yw ymosodiad Mr. Davies, a chais pendant i'm gyrru allan o fywyd cyhoeddus Cymru, a chais i ddrygu'r Blaid Genedlaethol hefyd drwy ensynio mai myfi sy'n unig gyfrifol am ei pholisi:

> "Paham yr ysgrifennaf fel hyn? . . . Yn gyntaf am fy mod yn credu bod yn y Blaid Genedlaethol, o dan arweiniad Mr. S. L., her i'n heglwysi ac i'n sefydliadau crefyddol a chymdeithasol."

Eto, ebr Mr. Davies, am fy ysgrifau:

> "Od oes ystyr o gwbl i eiriau pan ddefnyddir hwynt ar ran y Blaid Genedlaethol . . ."

a'r ensyniad eglur yw fy mod yn ysgrifennwr anonest; pan ddywedaf un peth, peth arall sydd yn fy meddwl. Eto dywed Mr. Davies am Maurras fod ganddo ei fyddin ei hun, y "Camelots du Roi" oedd yn barod bob amser i ufuddhau i Maurras ac i ymosod yn gorfforol ar unrhyw wladweinydd Sosialaidd pe credai Maurras y dylid; ac yna:

> "Gellir yn ddiau, ar ol y rhyfel—ac ni ryfeddem ddeall bod hyn yn yr arfaeth yn barod—gael gan gannoedd o ddynion ieuainc Cymru ymrestru mewn rhyw fath o 'Camelots du Boi,' fel sy gan Maurras, dros y Blaid."

A ellid ensynio dim mwy difrifol? A gwneir y cyhuddiadau hyn heb ddwyn y rhithyn lleiaf o brawf ohonynt. Ni thybia Mr. Davies fod angen profi ei gyhuddiadau:

> "Beth fydd Cymru ar ol iddi gymryd ei thynged i'w dwylo ei hun dan arweiniad y Blaid Genedlaethol . . . ? Ymddengys y bydd pedwar peth yn wir am Gymru; a rhaid fydd i'r pedwar pwynt hyn sefyll, oni ellir profi nad ydynt wir."

Pan ddygir cyhuddiadau difrifol yn erbyn neb mewn llys barn, ni thybir fyth fod y cyhuddiadau'n wir "oni ellir profi nad ydynt wir." Fel arall; ar y cyhuddwr y dodir y cyfrifoldeb o brofi i'r carn fod y cyhuddiedig yn euog. Onis profir, a hyd onis profir, fe gymerir fod y cyhuddiedig yn gwbl ddieuog. Ond nid dyna fethod Mr. Gwilym Davies. Ni chred ef fod angen profi dim oll o'i gyhuddiadau. Dangosaf nas gwna yn fanylach rhag llaw. Ond nid gwaeth hynny ganddo. Ei bwynt ef yw taflu arnaf gymaint o



faw ag y gall: bydd digon yn siwr o adael ei farc; ac o'm dinistrio i fe erys yr anfri yn barlys hefyd ar y Blaid Genedlaethol Gymreig:

> "Gwerinwr yw de Valera . . . ac mor ddemocrataidd yn ei syniadau gwleidyddol ag ydyw Mr. S. L. yn ffasgaidd."

## II.—DIM O DDYLANWAD MAURRAS.

Ceisiaf ateb cyhuddiadau Mr. Davies o'r bron. Ym mhennod gyntaf ei ymosodiad fe gais ef olrhain ffynonellau polisi'r Blaid Genedlaethol fel yr amlygir hynny yn "Canlyn Arthur." Deil fod iddo ddwy brif ffynhonnell. Yn gyntaf, athrawiaeth gymdeithasol y pabau, yn enwedig y ddau lythyr enwog "Rerum Novarum" a "Quadragesimo Anno":

> "Geilir cymryd bod awdurdod i bob cymal o bolisi'r Blaid Genedlaethol, fel y datguddir ef yn 'Canlyn Arthur,' yn y ddau 'Encyclical' ar faterion moesol a chymdeithasol."

Yn fras, y mae hyn yn wir, a diolchaf i Mr. Davies am ei gydnabod. Petai popeth o'i ysgrif mor deg a'r drafodaeth ar dudalen 100 ar fy nyled i i athrawiaeth foesol a chymdeithasol yr eglwys Gatholig, ni rwgnachwn ddim. Byddai dal athrawiaeth groes i'r athrawiaeth honno yn achos gofid dwys imi. Y mae croeso deallus Plaid Genedlaethol Cymru i'r egwyddorion hyn yn un o'r ffeithiau sy'n codi calon Cristion. Bwriadaf ddychwelyd at y pwnc hwn a'i drin yn dawel wedi gorffen gyda Mr. Davies.

Ond, ebr Mr. Davies, i Charles Maurras a'r "Action Francaise" yr wyf i a'r Blaid yn ddyledus am ein hegwyddorion politicaidd. Ceir ganddo ori thudalen yn disgrifio mudiad Maurras. Disgwyliais am brofion o'm dyled i a dyled y Blaid iddo. Ceir tri. Y cyntaf yw fy mod wedi darllen proflenni llyfr Saesneg yr Athro P. M. Jones ar "Tradition and Barbarism." Yr ail yw fy mod, Ebrill 29, 1942, wedi amddiffyn cymeriad Laval, Prif Weinidog Ffrainc, yn "Y Faner":

> "A Laval yn fawr ei allu eto yn Ffrainc. . . . tebygol yw na fyddai Maurras ar ol yn ei gymeradwyo ac yn ei ganmol."

Fel y digwydd pethau, wele ddyfyniad o "Radio Paris" sy dan reolaeth yr Almaenwyr ac a godir yn y "Tablet," Gorffennaf 4, 1942:

> "Nid oes yn rhifyn Mehefin 25 o'r 'Action Francaise' un gair am araith fawr Laval. Yn lle hynny dyry Maurras chwe cholofn i son am ei bolisi ef, 'La France Seule' (Ffrainc ar ei phen ei hun), a dengys y slogan i'r dim elyniaeth Maurras i Laval a'i duedd gwrth-Seisnig a gwrth-Almaenaidd."

Trydydd prawf Mr. Davies o'm hymlyniad i wrth Maurras yw bod Maurras ym mlynyddoedd diobaith ei fudiad wedi credu y deuai cyfle rywsut i achub Ffrainc oddi wrth ei gelyn gwaethaf, sef y Drydedd Weriniaeth:

"Ceir rhyw obaith cyffelyb yn Mr. S. L. wrth iddo feddwl am Gymru a'i thynged. Cawn ef yn ysgrifennu yn 1930, ddeuddeng mlynedd yn ol: 'Gwyliwn ninnau yng Nghymru ac ymbaratown. Yn anad dim, byddwn barod. Efallai, a phwy a wyr, fod Lloegr heddiw yn llithro i greisis fydd yn gorfodi i Gymru gymryd i'w dwylo ei thynged ei hun'."

Dyna'r tri phrawf o ddylanwad enfawr Maurras ar "Canlyn Arthur" a pholisi'r Blaid Genedlaethol. A ydyw Mr. Gwilym Davies yn ystyried mewn difrif eu bod yn brofion? Ai yntau barnu y mae ef fod hyn yn ddigon i gynhyrfu rhagfarn a pharlysu meddwl yng Nghymru?

O ble y daeth iddo'r syniad o gysylltu Maurras a'r Blaid Genedlaethol Gymreig ac a'm hysgrifau i? Oddi wrth lyfrau Mr. Ambrose Bebb. Oddi yno'n unig. Mr. Bebb yw'r unig aelod o'r Blaid Genedlaethol a gymerth Maurras yn arwr,—a dyna'n union paham yr ymbellhaodd Mr. Bebb oddi wrth y Blaid ar gychwyn y rhyfel hwn. Pymtheng mlynedd yn ol, yn "Y Llenor" haf 1927, tudalen 73, mi ysgrifennais i, pan syrthiodd Mr. W. J. Gruffydd i'r un camgymeriad a Mr. Gwilym Davies yn awr:

> "Darllenais dri neu bedwar o lyfrau Maurras, yn arbennig ei waith mewn beirniadaeth lenyddol. Ond rhaid imi ddweud yr hyn sy'n ffaith: ni chafodd syniadau politicaidd Maurras nemor ddim effaith arnaf, ac ni welais erioed ond rhyw ddeg neu ddeuddeg rhifyn o'r 'Action Francaise.' Os byddwch chwi mor amyneddgar ag edrych eilwaith ar fy mhamffled i ar 'Egwyddorion Cenedlaetholdeb,' fe welwch ar unwaith fod tuedd fy ysgrifau, fy nadl dros feddwl Ewropeaidd a gwrth-wladwriaethol mewn gwleidyddiaeth, yn gwbl groes, yn hanfodol groes i holl ddysgeidiaeth Maurras."

Os gallodd Mr. Gwilym Davies fy nghyhuddo yn 1942 o dderbyn fy syniadau politicaidd oddi wrth Maurras a'r "Action Francaise," heb gymaint a chyfeirio at y datganiad uchod a wneuthum yn 1927, rhaid ei fod, er gwaethaf ei restr o lyfrau a thystiolaethau, yn sgrifennu heb astudio'i bwnc neu yntau o fwriad yn cuddio'i wybodaeth. Mewn erthygl sy'n ymosodiad ar fy anrhydedd ac ar fy ngonestrwydd i, nid hawdd yw maddau'r cam.

Arhoswn ennyd gyda'r mater hwn. A rhoi bod Mr. Davies yn ysgrifennu heb gofio am rifyn "Y Llenor" 1927 a'r datganiad uchod, y mae er hynny yn ei ysgrif ef ei hunan dystiolaeth ddigonol i unrhyw feirniad teg a difalais na all egwyddorion Maurras ddim cyd-fod a'r egwyddorion a ddilynaf i. Ebr Mr. Davies: "Defnyddia Maurras ei slogan 'nationalisme integral' drachefn a thrachefn." Cyfieithia Mr. Davies hynny'n "genedlaetholdeb cyfan," yna dywed: "slogan arall Maurras yw 'politique d'abord'." Cyfieithia: "rhaid yw dechrau gyda gwleidyddiaeth"

Yna dywed Mr. Davies:

> "Sonnir drachefn a thrachefn yn 'Canlyn Arthur' am 'Genedlaetholdeb Cristnogol,' am 'Wladwriaeth Gymreig Gristnogol'."



O'r gorau; "od oes ystyr o gwbl i eiriau pan ddefnyddir hwynt ar ran y Blaid Genedlaethol," yna ni all "Cenedlaetholdeb Cristnogol" fod yr un peth a "chenedlaetholdeb cyfan" yr anffyddiwr Maurras. A lle y dywedodd Maurras bob amser "Gwleidyddiaeth yn flaenaf," mi ddywedais i bob amser "yr ysbrydol yn gyntaf," ac er gwybod y drwg a wnai fy ymuniad a'r Eglwys Gatholig i'r Blaid Genedlaethol Gymreig, ac er gofidio oherwydd hynny, mi gefais nerth i roddi "gwleidyddiaeth yn ail." Nid oes gan Mr. Davies yr esgus lleiaf dros honni bod dim o ddylanwad Maurras arnaf. Ac eto, ar hynny y seilia ef holl ddadl a holl gasgliadau ysgubol ei erthygl.

## III.—Y PEDWAR CYHUDDIAD.

Trown gan hynny at y pedwar peth "fydd yn wir am Gymru dan arweiniad y Blaid Genedlaethol; a rhaid fydd i'r pedwar pwynt hyn sefyll, oni ellir profi nad ydynt yn wir."

"Yn gyntaf," ebr Mr. Davies, "bydd Cymru yn Gymru annibynnol. Dyna ystyr y slogan Statws Dominiwn." Yn awr, y mae Mr. Davies wedi astudio'i bwnc yn drwyadl. Mae ganddo gasgliad o benderfyniadau'r Blaid ac o bamffledau'r Blaid. Astudiodd fy mhamffledau innau. Cymeraf fod ganddo felly gopi o'm pamffled i ar "Egwyddorion Cenedlaetholdeb" a galwaf ei sylw at y brawddegau hyn ar dudalen 4:

> "Yn gyntaf oll, peidiwn a gofyn am annibyniaeth i Gymru. Dangosais eisoes mai peth materol a chreulon ydyw. Y mae oes ymerodraethau'n mynd heibio'n gyflym, ac wedi hynny ni bydd ystyr na gwerth mewn annibyniaeth. Fe ddaw Ewrop i'w lle eto pan gydnabyddo'r gwledydd eu bod oll yn ddeiliaid ac yn ddibynnol. . . . Mynnwn felly nid annibyniaeth ond rhyddid. Ac ystyr rhyddid yn y mater hwn yw cyfrifoldeb. Yr ydym ni sy'n Gymry yn hawlio ein bod yn gyfrifol am wareiddiad a dulliau bywyd cymdeithasol yn ein rhan ni o Ewrop. Dyna uchelfryd politicaidd y Blaid Genedlaethol."

A ydyw hynny'n ddigon clir, Mr. Davies? Cymerwn eich ail bwynt nesaf:

> "Yr ail, bydd Cymru (dan y Blaid Genedlaethol) yn Gymru dotalitaraidd. Nid unben sydd yn gwneud totalitariaeth, ond un parti politicaidd yn y wlad, a dim ond un. Ac os y Blaid Genedlaethol fydd yr unig barti yn y Gymru annibynnol, bydd Cymru'n Gymru dotalitaraidd."

"Ipse dixit." Mr. Davies sy'n dweud hynny. Nid yw ef yn dyfynnu un frawddeg o'm holl waith i brofi ei gywirdeb. Tybed na wyr Mr. Davies ei fod yn darnguddio'r gwir? Fe wyr ef mai'r hyn sy'n "gwneud totalitariaeth" yw bod un blaid yn cipio'r Wladwriaeth ac yna trwy nerth y Wladwriaeth yn gwahardd bodolaeth unrhyw blaid arall. Fe wyr Mr. Davies nad oes dim un frawddeg yn fy holl ysgrifau i sy'n cyfiawnhau priodoli'r fath amcan i'r Blaid Genedlaethol. Yn erbyn hynny yr ysgrifennaf o hyd ac

o hyd ar dudalenau'r "Faner." Ac yn fy mhamffled ar "Y Frwydr dros Ryddid" dywedaf:

"Gorau po ysgafnaf fo baich y wladwriaeth, a hyd yn oed dan lywodraeth Gymreig fe barhai'r Blaid Genedlaethol yn elyn i wladwriaeth organolog, am fod y traddodiad Cymreig, sy'n draddodiad rhyddid, yn groes i hynny."

Y mae'r pamffled hwn ar werth o hyd, Mr. Davies; gellwch ei gael o swyddfa'r Blaid Genedlaethol. Yr wyf i wedi treulio blynyddoedd yn ceisio dysgu i Gymru mai totalitariaeth boliticaidd ac economaidd yw canlyniad sicr gor-ddiwydiannu gwlad, a bod holl fanteision nwyddau rhad a sinemau diwydiannaeth yn rhy ychydig o iawn am gaethwasiaeth y werin Gymreig. Yn hytrach na bwrw cablau rhad a phoblogaidd ar Hitler mi geisiais ddangos nad yw ef ond cynnyrch gor-ddiwydiannaeth y gorllewin, a bod yn bwysicach inni ymosod ar wreiddyn y drwg nag ymosod ar y ffrwyth sydd ar y gangen. Ac y mae'r math o gymdeithas a'r math o fywyd economaidd y ceisiais ac y ceisiaf eu gosod yn nod i Gymru'r dyfodol y cyfryw ag na allai totalitariaeth weithredu ynddynt. Os byth y gwelir y gymdeithas Gymreig gydweithredol ac amaethyddol ac anghanolog yr anelaf i a'r Blaid Genedlaethol oll ati ni bydd totalitariaeth yn bosibl o'i mewn.

Trydydd pwynt Mr. Davies yw y bydd Cymru'r Blaid Genedlaethol yn Gymru "Ffasgaidd ei llywodraeth." Rhaid imi longyfarch Mr. Davies ar y paragraff sy ganddo ar y pwynt hwn. Oblegid wedi bodloni yn y ddau gyntaf ar gyhoeddi'r cyhuddiadau heb sillaf i geisio profi eu cywirdeb eithr haeru eu bod yn sefyll "oni ellir profi nad ydynt wir," y tro hwn, er fy syndod a'm llawenydd, wele Mr. Davies yn cynnig prawf a thystiolaeth. Dyna'r prawf: yn "Canlyn Arthur" ceir ysgrif ar Undebau Llafur ac meddir yno:

'Pan sefydlir Senedd Gymreig dylid cydnabod rhan hanfodol Undebau Llafur . . . drwy roddi i Undebau Llafur gynrychiolaeth swyddogol yn Ail Dy y Senedd Gymreig."

Yn awr, gwrandawer ar Mr. Davies eto:

"Yn yr Eidal, oddi ar 1939, gelwir y Senedd i roddi'r enw Saesneg arno, 'The Chamber of Fasci and Corporations.' Dyma'r drefn ffasgaidd o Senedd, y drefn sy'n cydnabod hawl Undebau i gynrychiolaeth, ond yn gwrthod yn gyfangwbl hawl yr unigolyn fel dinesydd i'w bleidlais a hawl y werin yn y bwth pleidleisio."

Onid yw'n eglur fod Mr. Davies yn llwyr ddirmygu gallu ymresymu'r darllenydd Cymraeg? Y mae ef yn gwbl hyderus na wel y darllenydd ddim fel y try ef yn slei bach: "rhoddi cynrychiolaeth yn **Ail Dy** y Senedd Gymreig," i fod yn gyfystyr a Senedd o un ty'n unig a hwnnw'n "Chamber



of Fasci and Corporations"; ac yna'n eofn ac yn wyneb-galed fe a ymlaen i awgrymu fy mod innau'n "gwrthod yn gyfangwbl hawl yr unigolyn fel dinesydd i'w bleidlais a hawl y werin yn y bwth pleidleisio," ac ar bwys y ddadl dwyllodrus hon fe eilw ef y Blaid Genedlaethol yn "Blaid Ffasgaidd yng Nghymru."

Nid newyddian mewn ysgrifennu ar bynciau politicaidd mo Mr. Davies. Cafodd brofiad maith a chyfleusterau arbennig yn y gwaith. Fe wyr ef gystal a neb fod fy mrawddeg i, "rhoddi cynrychiolaeth i'r Undebau Llafur yn Ail Dy y Senedd Gymreig," yn rhagdybio mai ty fel Ty'r Cyffredin yn Lloegr, fel y Dail yn Iwerddon, wedi ei ethol yn rhydd gan unigolion, yn ymuno a'i gilydd yn fudiadau neu'n bleidiau gwleidyddol os mynnant, fydd y Ty Cyntaf. Heb hynny, ni byddai ystyr mewn son am Ail Dy. Ond ni bydd Arglwyddi yn Senedd Cymru Rydd; bydd rhaid llunio cyfansoddiad i Ail Dy; ac yn unig mewn trefn ddemocrataidd y mae galw am Ail Dy bellach. Yr oedd yn gryn gamp i Mr. Davies wyrdroi fy ngeiriau fel y gwnaeth.

Fe ddylai Mr. Davies wybod hefyd nad Ffasgiaeth biau'r syniad o gorfforaethau diwydiannol a galwedigaethol. Yr oeddynt yn bod yn Ewrop er dyddiau'r Groegiaid. Yr enw Saesneg arnynt oedd "guilds," ac yr oeddynt yn "Dy" yn Senedd Ffrainc hyd at y Chwyldroad Ffrengig. Cawsant sylw mawr yn Lloegr yn y ganrif hon drwy ysgrifau Orage a G. D. H. Cole ar "Sosialaeth y Gildiau." Yr oeddynt yn bod yn Holand a Belg hyd at y rhyfel hwn, ac fe'u ceir yn y Swistir. Mae'n wir i Ffasgiaeth yr Eidal eu mabwysiadu, ond yr un pryd eu difetha drwy eu darostwng i'r Wladwriaeth a dyma dystiolaeth erthygl arbennig ar y drefn yn yr Eidal a gaed yn y "Manchester Guardian," Ebrill 2, 1936:

'The new economic system that is emerging in Italy might be crudely generalised as Socialist. . . . It is 'etatisme' building itself upon the beginnings of a corporate ideal that was not Socialist; the ideal was possibly unattainable, but it was the one thing of social value in the Fascist revolution."

Pedwerydd pwynt Mr. Gwilym Davies yw: "Bydd Cymru dan y Blaid Genedlaethol yn **Gymru Babyddol.**" A fynnwch chwi'r prawf? Yn wir, fe ddylid ei brofi canys y mae'r bygythiad yn farwol. Os gwir hyn, yna dyna derfyn hyd dragwyddoldeb am Gymru rydd. Dyma'r prawf:

"Sonnir drachefn a thrachefn yn 'Canlyn Arthur,' am 'wladwriaeth Gymreig Gristnogol' . . . Pa esboniad ond Cymru'n Gymru Babyddol a ellir ei roddi ar y geiriau canlynol yn 'Canlyn Arthur': 'Pe deffroid Cymru mewn difrif a mynnu ohoni gyfle i lunio ei bywyd ei hun, byddai'n rhaid iddi drwy hynny yfed mor helaeth o ysbryd ei gorffennol fel mai'r tebyg yw y penderfynai ddilyn yn llwybr ei thraddodiadau ac ail-sefydlu, ar sail gadarn, wladwriaeth Gymreig Gristnogol'."

Gwahoddaf y darllenydd i droi at y bennod yn "Canlyn Arthur" a ddyfynnir gan Mr. Davies, y bennod ar "Y Teulu." Dangos yr oedd y bennod (Ionawr, 1930) fel yr oedd y Wladwriaeth Seisnig yn dinistrio'r teulu a'i annibyniaeth ac felly yn dinistrio sefydliad a wnaed yn gysegredig gan y briodas Gristnogol. Yna fe ddangoswyd na welodd Cymru mo'r perygl eto:

> "Oblegid hynny ni all hi wynebu tueddiadau ei hoes ei hun, eu deall, eu derbyn yn wrol gyda'r sylfaen wrth-Gristnogol, Marxaidd, neu ynteu eu gwrthod yn bendant a thaflu ei choelbren gyda thraddodiadau'r tadau Cymreig."

Ac yna daw'r paragraff a ddyfynna Mr. Davies. Sut y geill Mr. Davies ddarllen i mewn i'r geiriau fygythiad fod y Blaid Genedlaethol yn mynd i orfodi pob Cymro a Chymraes i droi'n babydd,—y mae'r peth y tu hwnt i'm dychymyg i.

Myfi yw'r unig babydd ar Bwyllgor Canol y Blaid Genedlaethol. Nid oes ond rhyw wyth neu naw o'r "species" rhyfedd hwn yn y blaid gyfan. Ond am ryw reswm neu'i gilydd yr wyf i'n parhau i dybio bod Methodistiaid Calfinaidd Cymru a'r Annibynwyr Cymreig a'r Bedyddwyr a'r Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys yng Nghymru oll yn Gristnogion. Y mae arweinwyr bywyd cyhoeddus Cymru oll yn parhau i arddel crefydd Crist. Y mae'r gwladwr o Gymro eto'n addoli Iesu Grist yn Dduw. Dyna ddigon i'm bodloni i. Ac mi roddaf fy ngair i Mr. Davies—rhag iddo golli dim cwsg pellach—mai'n unig drwy weddi annheilwng y ceisiaf i fyth o fwriad droi neb o'r Blaid Genedlaethol nac o Gymru i'r eglwys a roes arnaf i'r anrhydedd o'm derbyn i'w braint.

Y mae gennyf eto un pwnc y dymunwn ddychwelyd ato, sef polisi cymdeithasol y Blaid Genedlaethol a'i gysylltiad ag athrawiaeth foesol yr Eglwys Gatholig. Ond yr wyf yn ffarwelio'n awr a'r Parchedig Gwilym Davies. Cawn drafod y mater hwn yn y penodau nesaf.

## IV.—ARWEINIAD YR EFENGYL I'R BYD MODERN.

Yn y penodau cyntaf mi geisiais, mor deg ac mor ddi-ddial ag y gallwn, ateb ymosodiad Mr. Gwilym Davies ar fy nghymeriad ac ar y mudiad y bum i'n ei arwain hyd at 1939. Gadewais un mater i'w drafod ymhellach y tro hwn. Dywedodd Mr. Davies:

> "Gellir cymryd bod awdurdod i bob cymal o bolisi'r Blaid Genedlaethol, fel y datguddir ef yn 'Canlyn Arthur,' yn nau Encyclical ('Rerum Novarum Cupido,' a 'Quadragesimo Anno') y pabau Leo XIII. a Pius XI. ar faterion moesol a chymdeithasol."

Atebais innau: "Yn fras y mae hynny'n wir." Y ffaith yw bod nifer o'r erthyglau sylfaenol yn 'Canlyn Arthur' wedi eu cyhoeddi cyn ymddangos o 'Quadragesimo Anno' yn 1931. Nid dyma'r lle priodol imi geisio sgrifennu hanes datblygiad fy syniadau i am gymdeithas a gwlad. Bu gan fy efrydiau mewn llenyddiaeth Gymraeg ran bwysig yn y stori. Mae'n wir i 'Rerum Novarum Cupido' effeithio'n fawr arnaf, a llawenheais yn 1931 pan ddarllenais gyntaf y 'Quadragesimo Anno.' Ond y profiad pennaf a gefais i oedd darganfod yn raddol rhwng 1920 a 1926 fod gan efengyl yr Arglwydd Iesu Grist arweiniad i'w roi i'r byd modern ar faterion cymdeithasol ac economaidd. Nid darganfod y gellid defnyddio Cristnogaeth i feirniadu'n unig anghyfiawnderau cyfalafiaeth a rhyddfrydiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond darganfod bod gan Gristnogaeth gorff o athrawiaeth ac egwyddorion eang, cyffredinol, y gellid adeiladu arnynt a'u cyfaddasu at waith ymarferol diwygiad cymdeithasol ar linellau dynol a chywir. Dysgais lawer gan awduron Saesneg, megis Chesterton a Belloc, ac yn enwedig A.J. Penty a Montagu Fordham. Dysgais hefyd gan ysgrifenwyr Ffrainc,—a'r awdurdod Protestannaidd hwnnw, Charles Gide, a ddatguddiodd imi gyntaf bwysigrwydd yr egwyddor gydweithredol mewn diwydiant, egwyddor sy'n cyflawni neu'n cwblhau yr hyn sy'n ddiffygiol yn syniadau gor-syml y 'Distributists' Seisnig. Ond yr wyf newydd fod yn chwilio drwy fy nhipyn llyfrgell yn awr i weld pa rai yw'r llyfrau fu'n fwyaf o help a maeth imi, a rhaid imi gyffesu'n agored mai'r diwinyddion Catholig sydd mewn mwyafrif—a gaf i ofyn i'm cyfeillion darllen ymlaen a pheidio a gwylltio na dychryn? Llyfrau o Belg ac o Ffrainc ynghyd a chyfieithiadau o Almaeneg i Ffrangeg yw'r crynswth ohonynt, canys, ysywaeth, ni fedraf ddarllen yr Almaenwyr yn eu hiaith eu hunain, er fy mod yn gwybod ers talm mai hwy sy'n blaenori yn yr efrydiau hyn. Ac y mae'r rheswm am hynny'n eglur. Fel y dangosodd Mr. Davies, bu yn yr Eidal hyd at 1930, ac fe fu yn Holand ac ym Melg ac yn yr Almaen hyd at 1935, bleidiau Catholig pwysig "wedi eu sylfaenu, mewn pethau moesol a chymdeithasol, ar athrawiaeth y Babaeth." Rhoisant i'r Almaen ei gwleidydd mwyaf yn y ganrif hon, Dr. Bruening, a hwynt-hwy a symbylodd gyhoeddi gweithiau clasurol ar athrawiaeth gymdeithasol Cristnogaeth, megis llyfr Johannes Haessle 'Das Arbeitsethos der Kirche' a astudiais i yn y cyfieithiad Ffrangeg. Y mae'n drueni na cheffid trosiadau Cymraeg o lyfrau fel hyn. Byddent yn werthfawrocach na llyfr Leon Daudet ar Charles Maurras, y dyry Mr. Davies gymaint pwys arno. Gwendid y pleidiau Catholig yng ngwledydd Ewrop oedd iddynt, oblegid eu bod gan amlaf yn lleiafrifoedd, gymrodeddu ormod a phleidiau eraill a bodloni ar gymrodeddau annheilwng. Cawsant eu hysbubo ymaith gan fudiadau cryfach, mwy chwyldroadol, digymrodedd. Bu hanes undebau llafur Cristnogol a mudiadau ieuenctid Catholig yn fwy llewyrchus yn y gwledydd hynny.

## V.—CYMDEITHAS Y BLAID GENEDLAETHOL.

Tybia Mr. Davies mai myfi drwy fy ysgrifau a wthiodd ar Blaid Genedlaethol Cymru ei pholisi a'i dysgeidiaeth. Ond nid felly y digwyddodd pethau. Ni chynhwysodd Mr. Davies yn ei restr lyfryddol yn y 'Traethodydd' lyfr Saesneg llywydd y Blaid Genedlaethol, "Welsh Nationalism: What it stands for, by Professor J. E. Daniel." Yno fe ddywed yr Athro Daniel am y 'Deg Pwynt Polisi': "Yma fe gawn fynegi athroniaeth gymdeithasol draddodiadol Cymru." Ac yn sicr, y rheswm y derbyniwyd yr egwyddorion hyn gan y Blaid yw eu bod wedi tyfu yng nghymdeithas y Blaid ac wedi aeddfedu yno. Rhoi mynegiant ffurfiol iddynt wedi hynny oedd fy rhan i.

Pobl ifainc a sefydlodd Blaid Genedlaethol Cymru. Cymdeithas ifanc oeddem. Eithriad oedd cael yn ein cwmni rai fel Mr. Arthur Price a'r hybarch Lewis Williams. Cyfarfyddem am wythnos gyda'n gilydd bob haf ac astudiem broblemau Cymru a cheisio'u deall o safbwynt Cymru. Nid oedd y 'Left Book Club' wedi ei sefydlu nac wedi dyfod i golegau Cymru y pryd hynny. Gweinidogion crefyddol ifainc oedd llawer o'n pwyllgor canol ni, a chynnyrch adrannau Cymraeg ein prifysgol oedd y mwyafrif ar y cyntaf. Gyda hwynt cawsom weithwyr llaw o'r diwydiannau mwyaf Cymraeg yng Nghymru, chwarelwyr, gweithwyr alcam a ffermwyr ifainc. Caem bapurau ar wledydd bychain gogledd Ewrop ac ar Iwerddon, ar gydweithrediad amaethyddol yng Nghymru, ac ysbryd bywyd gwledig Cymru ac ar ysbryd hen gyfreithiau Cymru; caem nosweithiau llawen ac ymweld ag ardaloedd enwog yn hanes Cymru. Daeth y Dr. D. J. Davies atom a phwyso problemau economaidd y Deau arnom a chodi economeg yn wyddor foesol yn ein plith a dwyn o ysgolion gwerin Denmarc egwyddorion cydweithrediad a chenedlgarwch Cristnogol Gruntvig. Pwysai Moses Gruffydd dro ar ol tro nad codi bwyd na phesgi da oedd prif waith daear Cymru, ond codi dynion a gwareiddiad gwledig iach a thraddodiadol. Ac nid oedd yr ysgrifau yn y 'Ddraig Goch,' a gasglwyd wedyn yn llyfr "Canlyn Arthur,' ond yn mynegi'r egwyddorion—"athroniaeth gymdeithasol draddodiadol Cymru"—a dyfasai yn ein plith wrth inni dyfu'n gymdeithas Gymraeg a thrafod problemau cymdeithas o ddifrif yn ein hiaith ein hunain, yn rhydd oddi wrth 'jargon' dechnegol gwleidyddiaeth Seisnig. Deuai goreuon pobl ifainc Cymru i'n hysgolion haf; yr oeddynt yn llawen ac yn grefyddol ac o deuluoedd crefyddol—oblegid dyna'r teuluoedd gan amlaf sy'n glynu wrth bethau Cymreicaf eu bywyd. Pa beth a gefais i gan lythyrau bugeiliol Leo XIII., a chan y cyfundrefnwyr Catholig? Dim ond sicrwydd fod ein datblygiad,—ein pwyslais ar y teulu, y fro, cydweithrediad ac undebau llafur, amaethyddiaeth yn sylfaen, gwrthwynebiad i reolaeth arian ar fywyd cymdeithas, gwrthwynebiad i wladwriaeth ormesol, gwrthwynebiad i ddiwydiannaeth unochrog a phroffidiol,—fod y cwbl yn gyson ag egwyddorion cyffredinol y Ffydd Gristnogol; a chefais ganddynt hefyd arweiniad a help i gyfuno'r pethau hyn yn gorff o ddysgeidiaeth gymdeithasol Gymreig. Dywed Mr. Davies fod ein hathrawiaeth gymdeithasol ni yn gwbl Gatholig; dywed y Blaid drwy ei llywydd ei bod yn "draddodiadol Gymreig." Yn gatholig, hynny yw, yn gyffredinol a Christnogol, a'r un pryd yn draddodiadol Gymreig ac wedi tyfu yng nghanol cymdeithas o Gymry Cymraeg ac ifainc,—onid dyna'r deyrnged uchaf y gellid fyth ei roddi i unrhyw bolisi cymdeithasol ar gyfer Cymru?

Unwaith neu ddwy yn y blynyddoedd diweddaraf cafwyd ymrysonau yn y Blaid ei hunan ar y pethau hyn. Codai dylanwad sosialaeth a'r "Left Book Club" weithiau yn y Blaid hefyd. Ond y mae sefyllfa'r Blaid Genedlaethol Gymreig yn un arbennig yn holl wledydd Prydain Fawr heddiw. Hi yw'r unig fudiad politicaidd ym Mhrydain a chanddi raglen gymdeithasol gwbl gyson a'r ddysgeidiaeth Gristnogol gyffredinol am drefn iawn mewn cymdeithas. Duw a roddo iddi'r nerth i geisio'i gyflawni a chadw'n ffyddlon iddi.

## VI.—Y DDYSGEIDIAETH GRISTNOGOL GYFFREDINOL.

Mi wn i, fel y gwyr Mr. Davies, fod ar y gwladwr cyffredin yng Nghymru o hyd arswyd rhag y "Babaeth"; dweud fy mod i am droi Cymru drwy drais yn Ffasgaidd a phabyddol oedd y dull hawsaf oll i'm damnio. Ac efallai y bydd cydnabod yn agored, fel y gwnaf yn awr, mai mewn awdurdodau Catholig y ceir yr ategion blaenaf i bolisi cymdeithasol y Blaid Genedlaethol,—y bydd hynny hefyd yn peri braw i amryw.

Gan hynny, mi ddymunaf ddangos yn awr fod gan Gymru Ymneilltuol hawl bendant, yn rhinwedd ei hymneilltuaeth, i fabwysiadu'r athrawiaeth hon; a'i bod hi'n llwyr ac yn unig gyson a datganiadau mwyaf swyddogol ac awdurdodol yr eglwysi Protestannaidd ar bynciau cymdeithasol.

Nid trwy resymu'r peth y ceisiaf ei ddangos. Ni wn i a argyhoeddir neb drwy resymu. Dweud bod dyn yn Ffasgydd sy'n ei ddamnio; gwastraff ar egni wedyn yw dyfeisio profion. Felly gyda'r mater hwn. Dywed Mr. Davies fod "awdurdod i bob cymal o bolisi'r Blaid Genedlaethol yn y ddau encyclical ar faterion moesol a chymdeithasol." O'r gorau. Dangosaf innau'n awr fod arweinwyr blaenaf pob corff Protestannaidd o bwys yn Lloegr yn derbyn yr "Encyclicals" a'u bod mewn datganiadau o gyffelyb natur wedi mabwysiadu'r unrhyw egwyddorion a rhoi eu bendith arnynt.

Mai 28, eleni, cyhoeddwyd maniffesto ar gydweithrediad Cristnogol mewn materion cymdeithasol, gan gyd-bwyllgor yn cynrychioli ar un llaw yr Eglwys Gatholig yn Lloegr, ac ar y llaw arall yr Eglwys Sefydledig a'r

holl brif gyrff Protestannaidd Seisnig. Arwyddwyd y datganiad ar ran y cyrff Protestannaidd gan y rhai a ganlyn, a rhoddaf eu henwau a'u teitlau oll yn y Saesneg gwreiddiol: The Bishop of London, The Bishop of Chichester, Mr. T. S. Eliot, Miss Eleanor Iredale (Christian News Letter), Miss Mary Owen (Y.W.C.A.), Rev. Dr. Sidney Berry (Congregational Union), Rev. Henry Carter (Methodist Union), Rev. D. A. C. Craig (Commission of the Churches), Rev. Dr. T. G. Dunning (Baptist Union), Rev. Dr. William Paton (World Council of Churches). Yn y datganiad fe ddywed y rhain (ynghyd a'r cynrychiolwyr Catholig nad yw o bwys eu henwi'n awr) eu bod oll yn cytuno i gydweithio er mwyn cael Cristnogion o bob enw ym Mhrydain i gydweithredu ar linellau eang o bolisi cymdeithasol a chydwladol. Y mae'r argyfwng presennol ar Gristnogaeth ac ar wareiddiad, a'r cyfle sy'n debyg o agor i Gristnogion yn yr atrefnu ar ol y rhyfel, yn gorfodi llawer ychwaneg o gydweithrediad rhwng cyrff Cristnogol nag a gafwyd gynt. Rhoed dechrau i'r cydweithio hwn, ebr y datganiad, pan fabwysiadodd yr holl gyrff Cristnogol yn Lloegr bum pwynt heddwch y Pab ac ychwanegu atynt bump arall mewn llythyr i'r "Times," Rhagfyr 21, 1940. Yna dywedir:

> "But there are many other pronouncements, such as that issued by the Malvern Conference, the document on Social Justice and Economic Reconstruction issued by the Commision of the Churches, the statement on a Christian Realm put out by the Church Union of the Church of England, **the Social Encyclicals of the Popes from Leo XIII. onwards**, all relevant to the common obligations we accept. Over this whole field, collaboration among Christians, already in progress, ought to be encouraged."

Dyna'r cwbl yn glir bellach: y mae pob cymal o bolisi'r Blaid Genedlaethol, yn ol datganiad Mr. Gwilym Davies, wedi ei warantu gan lythyrau bugeiliol Leo XIII. a'i ddilynwyr. Y mae holl lythyrau bugeiliol Leo XIII. a'i ddilynwyr ar faterion cymdeithasol wedi eu gwarantu gan brif arweinwyr pob corff Protestannaidd yn Lloegr. Gan hynny, y mae gan Blaid Genedlaethol Cymru hawl i ofyn am gefnogaeth holl Brotestaniaid Cymru i'w pholisi cymdeithasol hi. Lle y mae Lloegr yn dechrau yn awr, drwy'r datganiad uchod, lunio rhaglen gymdeithasol ar linellau Cristnogol ar gyfer y dyfodol, y mae rhaglen Gristnogol gyflawn, pob cymal ohoni yn gyson a'r datganiadau Cristnogol llawnaf yn Ewrop, wedi bod gerbron Cymru ac wedi ei phregethu gan Blaid Genedlaethol Cymru yn ddi-ball er 1926. Ac yng Nghymru, drwy'r Blaid Genedlaethol, yr ydym eisoes wedi troi'r egwyddorion Cristnogol hyn yn gynlluniau pendant ar gyfer atrefniad wedi'r rhyfel. Yr ydym yn gweld ein ffordd hyd yn oed yng nghanol yr anhrefn bresennol, a gallwn roi arweiniad i Gymru os myn hi dderbyn hynny.

## VII.—NID DIGON RHAGLEN GRISTNOGOL.

Ond a gaf i ddal ar y cyfle i ddweud hyn hefyd wrth Gymru, gan mai "Cymru gyfan a'r Blaid Genedlaethol" yw pennod yr ysgrif yn y



"Traethodydd":—Nid yw rhaglen Gristnogol ar ei phen ei hun yn ddigon heddiw. Rhaid hefyd wrth Gristnogion.

Ar wahan i Leo XIII. ac ychydig iawn tebyg iddo, prin y clywodd Ewrop lais Cristnogol yn protestio yn erbyn y distryw yr oedd cyfalafiaeth ryddfrydol, dan arweiniad Lloegr, yn ei ledu drwy'r byd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y mae Cymru yn cael ei chosbi hyd at heddiw oblegid na chododd ei chyrff Cristnogol hi ddim un arweinydd i arwain y frwydr yn erbyn y ffieidd-dra a wnaeth budr-elwa o fywyd yn Neheudir Cymru. Bu'n rhaid i Ferthyr gael Sgotyn ac estron, Keir Hardie, i fod yn broffwyd cyfiawnder iddi; ac y mae'r diwylliant Cymraeg a'r cyrff crefyddol Cymraeg yn Neheudir Cymru yn dwyn y gosb o hyd.

Y mae'r byd heddiw yn hawlio crefydd a ddyry dan yn ysbryd dyn. Dyna a geir mewn Naziaeth ac mewn Comiwnyddiaeth. Y maent ill dau yn greulon, yn erlidgar, yn waedlyd, yn ddi-ymysgaroedd. Ond y mae ganddynt sicrwydd; mae ganddynt bendantrwydd; mae ganddynt ffydd. Ac oblegid hynny gallant gynnau tan yng nghalonnau dynion ifainc sy'n cael bod "marw dros Hitler" yn nod gorawenus. Ac er holl erchyllterau'r gwersyll-garcharau yn yr Almaen ac yn Rwsia, cytuna pob tystiolaeth fod Naziaeth a Chomiwnyddiaeth, o leiaf yn eu blynyddoedd cynnar, wedi deffro dynion i fywydau ymprydiol, ymgosbol, hunan-aberthol. Ceid dynion yn fodlon i "adael pob peth" er mwyn dilyn meistr a roddai iddynt Ffydd. Fe ddyry dynion groeso i ormes totalitariaeth, am y rhoddo hi Ffydd iddynt, yn hytrach na nychu yn anhrefn byd diystyr a swrth.

Nid oddi wrth 'babyddiaeth,' fel y gelwir y peth, y mae perygl Cymru heddiw. Y perygl yw bod y grefydd Gristnogol yn marw o nychdod yng Nghymru. Y perygl yw na wyddoch chwi, weinidogion llawer o egwysi Cymraeg, ddim i ba beth nac i bwy y credwch. Ac na wyr eich aelodau. Y mae ysbryd y 'bourgeois' wedi meddiannu eneidiau'r Cymry. Ein nod fel cenedl yw goddef pob dim er mwyn aros bob un mor gysurus a di-helbul ag y gallo. Nid oes gennym syniad beth a olygir wrth "ddigofaint santaidd." Ac y mae arwriaeth y tu draw i'n dychymyg. Oblegid nad yw Ffydd ddim yn fywiol mwyach, ond yn beth parchus a bras. A'r perygl yw y daw totalitariaeth Seisnig a dinistrio'n cenedl ni heb inni godi llaw i'w hatal ddim. Fe ddinistrir ein heglwysi Cymraeg, ein cymdogaethau cefn gwlad sy'n asgwrn cefn ein bywyd, ein cartrefi Cymraeg ni,—ac nid oes neb yn gwrthwynebu'n effeithiol nac ond ychydig yn malio. Dyna'n peryglon ni. Bydd yn hawdd i Ffasgiaeth Seisnig a thotalitariaeth Seisnig ddinistrio'n cenedl ni. Nid oes gennym ffydd sy'n dan i wrthwynebu. Yr ydym yn darllen ddydd ar ol dydd yn y wasg Saesneg am arwriaeth y Pwyliaid ac arwriaeth y Tseciaid dan drais a chreulonderau'r

Almaenwyr. Ond heddiw, pan yw Cymru dan gymaint gwasgfa gan filitariaeth Seisnig, yn hytrach na noethi'r cledd yn erbyn hynny, gwell gan Mr. Gwilym Davies a golygyddion y "Traethodydd" gyhoeddi cyhuddiadau cwbl ddi-sail yn erbyn y mudiad Cymreig sy'n ceisio, er yn egwan, amddiffyn eglwysi a chartrefi a daear ac iaith a phlant Cymru.

---

## ATEB J. E. DANIEL

Gadawaf i Mr. Saunders Lewis ateb yr ymosodiad personol arno ef, a chyfyngaf fy hun i ateb yn swyddogol, fel Llywydd Plaid Genedlaethol Cymru, ymosodiad Mr. Davies ar y Blaid.

Pedwar bwgan a ddarogenir gan Mr. Davies i Gymru, os byth y ceir ynddi Lywodraeth Genedlaethol Gymreig, sef—annibyniaeth, totalitariaeth, Ffasgaeth a Phabyddiaeth.

Y CYNTAF.—Annibyniaeth. Ystyr y gair hwn ar enau Mr. Davies yw'r sofraniaeth absoliwt honno a wnaeth gymaint o ddrwg eisoes; gwladwriaeth yn gwrthod cydnabod unrhyw awdurdod ond ei hewyllys ei hun. Priodolir y ddysgeidiaeth hon i'r Blaid gan Mr. Davies. Pe bai wedi darllen pamffledyn cyntaf y Blaid, sef "Egwyddorion Cenedlaetholdeb" gan Mr. Saunders Lewis, a ffurflen ymuno y Blaid, ni allasai byth ddwyn y fath gyhuddiad celwyddog. Ym mhamffled Mr. Lewis, ymwrthodir, mewn cynifer o eiriau, ag athrawiaeth annibyniaeth, a gosod yn ei lle athrawiaeth rhyddid cyfrifol a chydweithredol. Ar ffurflen ymuno'r Blaid, ochr yn ochr a rhyddid Cymru, fel ail a chydradd amod aelodaeth, gosodir ennill i Gymru sedd ar Gynghrair y Cenhedloedd. A yw hynny yn ddigon i chwi, Mr. Ysgrifennydd Undeb Cymreig Cynghrair y Cenhedloedd?

YR AIL.—Totalitariaeth. Dywed Mr. Davies nad unben ond un parti sydd yn gwneud totalitariaeth, a chyhudda'r Blaid Genedlaethol o fwriadu dileu pob plaid arall a'i gwneuthur ei hun yn unig blaid.

Anodd parchu na'r deall na'r gydwybod a luniai'r fath gyhuddiad. Yn wir, y mae'r ymresymiad yn blentynnaidd. Nid yw Mr. Davies yn ein cyhuddo o unbennaeth. Dyna un drych nas gosodir o'i flaen. Ond (er na welodd Ewrob eto dotalitariaeth heb unben) nid unben, medd Mr. Davies, sydd yn gwneud totalitariaeth. Gwir. Ond nid unblaid chwaith. Dylai Mr. Davies wybod mai canlyniadau athrawiaeth arbennig o le a hawliau r Wladwriaeth yw'r Unben a'r Unblaid. Heb yr athrawiaeth, nis ceid. Offeryn y Wladwriaeth Absoliwt nad yw'n cydnabod unrhyw allu tuhwnt iddi ei hun yw'r Unben a'r Unblaid na oddefant gystadleuaeth arweinydd a phlaid arall.



A yw Mr. Davies am fentro'i enw da fel sylwedydd gwleidyddol a gwr gonest trwy faentumio mai dyna ddysgeidiaeth y Blaid Genedlaethol? Oni ddarllenodd "Paham y Llosgasom yr Ysgol Fomio"? Fe wel yno mai fel protest yn erbyn nid yn unig hawliau totalitaraidd Gwladwriaeth Loegr ond yn erbyn yr holl feddwl totalitaraidd yr aeth tri Christion, un yn Babydd, un yn Fedyddiwr, un yn Fethodus, i garchar Wormwood Scrubs. Oni ddarllenodd mai'r tyddynwr cydweithredol yw sylfaen ein polisi amaethyddol, ac mai datganoli diwydiannau a fynnwn, a rhoddi llais i'r gweithiwr yn eu rheoli? A sut y gall totalitariaeth ddygymod a'r pethau hyn? A yw Mr. Davies o ddifrif yn meddwl mai er mwyn ei thraddodi'n rhwyddach i Dotalitariaeth Gymreig y mynnwn waredu Cymru o afael Totalitariaeth Lloegr?

Pa sawl plaid fydd yn y Gymru rydd, ni wyr neb. Mater i Gymru fydd hynny, nid i'r Blaid Genedlaethol. Celwydd anfaddeuol yw awgrymu y myn y Blaid Genedlaethol wneuthur yr hyn a wnaeth y Comiwnyddion yn Rwsia, a'r Natsiaid yn yr Almaen.

YN DRYDYDD.—Ffasgaeth. Er fod gan Mr. Davies ddigon o ofod yn ei erthygl i roddi manylion llawn am fudiad Maurras yn Ffrainc, na wyr nemor neb yng Nghymru ddim oll amdano, "nid oes ganddo ofod" o blith holl benderfyniadau holl gynhadleddau'r Blaid, a gynhaliwyd ar goedd Cymru gyfan, i ddim ond un penderfyniad i brofi "Ffasgaeth" y Blaid, a'r penderfyniad hwnnw yw: "Galwn ar ein cyd-Gymry oll i ymuno a ni yn y frwydr dros ryddid a heddwch a democratiaeth a llwyddiant i Gymru."

Gellid tybio y byddai mor anodd i gyhuddiad o Ffasgaeth gael tir dano yn y penderfyniad hwn ag ydoedd i golomen gyntaf Noah gael llecyn sych. Ond nid yn ofer y bu Mr. Davies yn bwhwman o gwmpas coridorau Genefa. Onid oes le i roi troed i lawr, rhaid gwneud lle. "Wrth gwrs," os cawn aralleirio geiriau Mr. Davies, "democratiaeth y mae'r penderfyniad yn ei ddywedyd. Ond Ffasgaeth y mae yn ei feddwl. Croen Tom Ellis, ond llais Mwsolini." Go dda, Mr. Davies.

A'r prawf mai llais Mwsolini ydyw? O, fod Mr. Lewis wedi dywedyd yn "Canlyn Arthur," y dylid rhoi i "Undebau Llafur gynrychiolaeth swyddogol yn Ail Dy y Senedd Gymreig." Yr hyn a ragdybir yma, yn amlwg, yw rhywbeth ar batrwm Senedd bresennol Lloegr, a chanddi ddau Dy, ond y llenwir yr Ail Dy, nid fel y llenwir Ty'r Arglwyddi, ond, ymhlith eraill, gan gynrychiolwyr gweithwyr Cymru.

Sut, ynteu, y mae hyn yn profi Ffasgaeth? O, am fod "Senedd" yr Eidal yn rhoddi cynrychiolaeth i Undebau Llafur. Cuddia Mr. Davies (a) y ffaith nad Senedd yn ystyr ddemocrataidd yw'r hyn y dewisiodd Mr. Davies, gan dywyllu cyngor, ei alw yn "Senedd" yr Eidal; (b) nad oes

gan yr Undebau a gynrychiolir ar yr hyn nad yw yn Senedd ond a elwir yn Saesneg "The Chamber of Fasci and Corporations," unrhyw wir ryddid nac annibyniaeth; ac (c) nad yw'r "Chamber" ei hun namyn offeryn dof ac ufudd y Wladwriaeth, sef y Blaid Ffasgaidd. A ddeil Mr. Davies i haeru mai dyna ystyr y geiriau a ddyfynna o "Canlyn Arthur," a'r Senedd y sonnir amdani yno?

YN BEDWERYDD.—Pabyddiaeth. Cadwodd Mr. Davies y bwgan gwaethaf i'r diwedd. A beth yw ei ddadl? Yn fras, hyn: Am fod rhai pethau yn ysgrifau Mr. Saunders Lewis sydd i'w cael yn y ddau lythyr "Rerum Novarum" Leo XIII. a "Quadragesimo Anno" Pius XI., ac am fod y Blaid yn son am "wladwriaeth Gristnogol," dadleuir ein bod fel Plaid yn arwain crwsad i droi Cymru'n Babyddol.

Beth yw'r elfennau hyn y cyfeiria Mr. Davies atynt? Wel, dyma nhw: pwysigrwydd y teulu mewn cymdeithas, pwysigrwydd gwasgaru eiddo mor helaeth ag y gellir, a hawl Undebau Llafur i lais yn rheolaeth diwydiant. A yw Mr. Davies am ddadlau mai dysgeidiaeth arbennig Babyddol yw hon, h.y., na ellir ei derbyn heb hefyd gydnabod hawl grefyddol y Babaeth? Os felly y mae Llywodraeth Mr. Churchill yn Babyddol, am iddi fabwyso "Lwfans Teulu" (Family Allowances) fel polisi. Os felly, y mae gwledydd bychain Gogledd Ewrob, yn enwedig y wlad lwyr Brotestannaidd honno, Denmarc, yn Babyddol, am mai ar gydweithrediad man-gyfalafwyr y sylfeinir cymdeithas a diwydiant yno. Os felly Pabydd yw Mr. Lyttelton am iddo, wrth osod i fyny ei Regional Production Boards, osod arnynt gynrychiolwyr Undebau Llafur. Os felly Pabyddion ydyw Rhyddfrydwyr Lloegr, sydd wedi mabwyso fel eu polisi raniad helaethach o eiddo. Ond i ba ddiben yr ymhelaethir? Mabwysiadwyd ei pholisi cymdeithasol gan y blaid Genedlaethol, nid am ei fod yn Babyddol, ond am ei fod yn gydnaws a thraddodiadau Cymru, ac am ei fod eisoes yn cael ei weithredu gan y gwledydd bychain hynny y gwelem ni ynddynt batrwm ein polisi.

Credwn fod diogelu'r teulu Cymreig, amddiffyn y dyn bychan, rhoddi i ddyn fel gweithiwr yn ogystal ag fel dinesydd, lais yn rheolaeth ei fywyd, yn orchwylion hanfodol synhwyrol a Christnogol, nad oes unrhyw angen apelio at awdurdod Pab nac arall, ond yr Efengyl ei hun, i'w cydnabod a'u derbyn.

Terfynwn gyda dau sylw. Yn gyntaf, Cynhadledd y Blaid Genedlaethol, yn cynrychioli ei changhennau, yw'r awdurdod terfynol o'i mewn. Nid oes le i'r "Fuhrerprinzip" yn ei holl gyfansoddiad. Yn ail, o astudio erthygl Mr. Davies yn fanwl, fe welir nad oes o'i mewn unrhyw egwyddor undod ond awydd dinistrio'r Blaid Genedlaethol.

---

**Argraffwyd yn Swyddfa'r "Herald," Caernarfon.**